| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Cyngor Llawn |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 14 Tachwedd 2023 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol** | **Win Mullen-James, Aelod Arweiniol Datblygu Lleol a Chynllunio / Emlyn Jones, Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad** |
| **Awdur yr adroddiad** | Ian Millington, Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd/Nicky Jones Uwch Swyddog Trwyddedu |
| **Teitl** | Datganiad o Egwyddorion Trwyddedu Deddf Gamblo 2005 Diwygiedig Arfaethedig |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Gofyn i Aelodau fabwysiadu'r Datganiad o Egwyddorion Deddf Gamblo 2005 diwygiedig yn ffurfiol.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Gall gamblo fod yn gaethiwus ac arwain at unigolion yn datblygu problemau, pan fo'r gweithgaredd yn amharu neu yn cyfaddawdu eu bywydau a rhai eu teuluoedd. Mae problemau gamblo yn cael effaith ar deuluoedd, cymunedau a gwasanaethau iechyd. Mae rheoliad gamblo yn genedlaethol trwy'r Comisiwn Gamblo ac yn lleol trwy wasanaeth Gwarchod y Cyhoedd y Cyngor yn anelu i ostwng y posibilrwydd o niwed ond hefyd i sicrhau tegwch i fusnesau.

2.2 Rhan o gyfrifoldebau yr Awdurdod Lleol, wrth weithredu fel Awdurdod Trwyddedu, yn unol ag Adran 349 y Ddeddf Gamblo, yw penderfynu, adolygu a chyhoeddi Datganiad o Egwyddorion Gamblo. Fel sy'n ofynnol yn gyfreithiol, ac yn unol â'r Canllawiau a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Gamblo, mae angen i'r Cyngor ymgynghori a pharatoi Datganiad o Egwyddorion Gamblo bob tair blynedd.

2.3 Fel sy'n ofynnol yn gyfreithiol, ac yn unol â'r Canllawiau a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Gamblo, mae angen i'r Cyngor ymgynghori a pharatoi Datganiad o Egwyddorion Gamblo bob tair blynedd.

2.4 Mae'r Datganiad o Egwyddorion Gamblo yn sefydlu fframwaith lleol ar gyfer llunio penderfyniadau wrth ystyried ceisiadau ar gyfer caniatâd perthnasol, neu amrywiadau i amodau a thelerau presennol. Mae'r Egwyddorion yn bwysig iawn gan ei bod yn ofynnol i'r Pwyllgor Trwyddedu a'r Is-Bwyllgor roi sylw dyledus iddynt wrth wneud penderfyniad ar gais a wrthwynebwyd.

2.5 Trwyddedau/caniatâd presennol y Cyngor:

- 5 Canolfan Gemau i Oedolion
- 3 Canolfan Adloniant i Deuluoedd
- 3 Trwydded Safle Bingo
- 12 Siop betio
- 1 Trwydded Hapchwarae Clwb
- 7 Trwydded Peiriant Clwb
- 7 Caniatâd Canolfan Adloniant Hapchwarae Teuluol Didrwydded
- 11 Caniatâd Safle Trwyddedig
- 82 Loterïau cofrestredig

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod y Cyngor yn mabwysiadu'r Datganiad o Egwyddorion Gamblo Diwygiedig Drafft yn ffurfiol (Atodiad 1).

3.2. Bod y Pwyllgor yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 2) fel rhan o'i ystyriaethau.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1 Ar 7 Rhagfyr 2022 cymeradwywyd y Datganiad o Egwyddorion Gamblo diwygiedig gan Aelodau'r Pwyllgor Trwyddedu ar gyfer ymgynghoriad statudol a byddai ond angen ei gyfeirio'n ôl i'r Pwyllgor Trwyddedu os ceir sylwadau, fodd bynnag, pe na cheir sylwadau o ganlyniad i'r ymgynghoriad byddai'r datganiad terfynol yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Sir i'w gymeradwyo.

4.2 O ganlyniad i'r ymgynghoriad, rhwng 12 Ionawr 2023 a 22 Chwefror 2023 ni chafwyd unrhyw sylwadau.

4.3 Cynhaliwyd yr adolygiad gan ystyried y newidiadau perthnasol mewn deddfwriaeth, canllawiau cenedlaethol ac ymarfer da, hefyd fel rhan o broses barhaus i ddarparu dull cyson i ddefnyddwyr gwasanaeth ar draws y rhanbarth cynhaliwyd yr adolygiad mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol eraill yng Ngogledd Cymru.

4.4 Mae'n werth nodi nad yw'r Cyngor wedi cael unrhyw her gyfreithiol i'r Egwyddorion presennol, ac nid yw'r Awdurdod Trwyddedu wedi cael unrhyw sylwadau negyddol gan y Diwydiant Trwyddedig Gamblo neu Broffesiwn Cyfreithiol ynglŷn â'r cynnwys. Felly ni chynigiwyd newidiadau sylweddol i'r Egwyddorion diwygiedig, rhywbeth a gefnogir gan y Pwyllgor Trwyddedu.

4.5 Os cadarnheir y Datganiad o Egwyddorion Gamblo diwygiedig gan y Cyngor yna bydd yn parhau mewn grym am gyfnod pellach o dair blynedd, yn amodol wrth gwrs ar unrhyw ddiwygiadau angenrheidiol, a fyddai angen ymgynghoriad pellach a chymeradwyaeth gan y Cyngor.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Bydd y Datganiad o Egwyddorion yn cefnogi'r Cynllun Corfforaethol trwy sicrhau fod pobl yn cael eu hamddiffyn rhag niwed, camdriniaeth a cham-fanteisio gan gynnwys mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol ac yn anelu i gefnogi adferiad economaidd trwy ddarparu cyngor a chymorth i fusnesau.

## 6. Beth fydd cost hyn a beth fydd ei effaith ar wasanaethau eraill?

6.1 O fewn gofynion cyllidebol sy'n bodoli.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1 Mae gan y Datganiad o Egwyddorion effaith cadarnhaol yn gyffredinol gan ei fod yn ceisio arwain busnesau i ddeall disgwyliad eiddo trwyddedig a'u rheolaeth. Ni all yr Egwyddorion hyn ddynodi arferion gweithredol oni bai eu bod yn methu â bodloni amodau a/neu rwymedigaethau trwyddedu. Os canfyddir unrhyw fethiannau mae'r Datganiad o Egwyddorion yn amlinellu dewisiadau gorfodi i gyflawni cydymffurfiad.

**8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?**

8.1 Er mwyn cydymffurfio â gofynion statudol, ymgynghorwyd â'r asiantaethau canlynol:

(a) Y Comisiwn Gamblo

(b) Heddlu Gogledd Cymru:

(c) Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

(d) Awdurdodau Cynllunio

(e) Iechyd yr Amgylchedd/Iechyd a Diogelwch

(f) Safonau Masnach

(g) Gwasanaethau Cymdeithasol

(h) Cyllid a Thollau ei Mawrhydi

(i) Yr holl gwmnïau ac unigolion sydd â thrwyddedau eiddo gamblo ar gyfer eiddo yn y Sir

(j) Cynghorwyr a Chynghorau Tref a Chymuned

(k) Cynrychiolwyr busnesau

(i) Cynrychiolwyr unigolion sy'n rhedeg busnesau gamblo yn Sir Ddinbych

(m) Cyrff lleol yn cynrychioli unigolion diamddiffyn

(n) Adrannau yn y Cyngor sydd â diddordeb mewn trwyddedu gamblo

8.3 Yn ogystal â'r gofynion statudol ar gyfer ymgynghori, roedd bob dogfen ar gael ar borth ymgynghori Sgwrs y Sir i'r cyhoedd ac ar gael mewn copi caled yn holl Lyfrgelloedd a Siopau Un Alwad Sir Ddinbych.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1 Yn bresennol rhagwelir y bydd y Cyngor yn gorwario y flwyddyn ariannol hon ac yn wynebu gwir ostyngiadau sylweddol yn y gyllideb y flwyddyn ariannol nesaf. Felly croesawir fod y gwasanaeth wedi ymrwymo i gyflawni'r egwyddorion hyn o fewn cyllidebau gwasanaeth sy'n bodoli.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1 Pe na bai'r Cyngor yn mabwysiadu Datganiad o Egwyddorion a adolygwyd, gall bob penderfyniad fod yn agored i her a byddai'r Cyngor yn torri ei rwymedigaeth statudol.

**11. Pŵer i wneud y penderfyniad**

11.1 I gydymffurfio â gofynion Adran 349 Deddf Gamblo 2005 i adolygu, penderfynu a chyhoeddi Datganiad o Egwyddorion.